



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 Rhif 2657 (Cy.222)

2010 No. 2657 (W.222)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Rheoliadau Gorchmynion Traffig
Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn)
(Cymru a Lloegr) (Diwygio)
(Cymru) 2010

The Local Authorities' Traffic
Orders (Procedure) (England and
Wales) (Amendment) (Wales)
Regulations 2010

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996 o ran Cymru.

These Regulations amend the Local Authorities' Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1996 in relation to Wales.

Mae adrannau 85 ac 86 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 yn gosod gwaharddiadau ar barcio dwbl a pharcio ar droetffyrdd a ostyngwyd neu a gyfodwyd mewn ardaloedd gorfodi arbennig sydd wedi'u dynodi o dan y Ddeddf honno.

Sections 85 and 86 of the Traffic Management Act 2004 impose prohibitions on double parking and parking at dropped or raised footways in special enforcement areas designated under that Act.

Mae adrannau 85(8) ac 86(9) o Ddeddf 2004 yn darparu bod y gwaharddiadau yn orfodadwy megis petaent wedi'u gosod drwy orchmynion o dan adran 1 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Sections 85(8) and 86(9) of the 2004 Act provide that prohibitions are enforceable as if imposed by orders under section 1 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 18 o Rheoliadau 1996 er mwyn darparu nad yw'n ofynnol gosod a chynnal arwyddion traffig i nodi effaith adrannau 85 neu 86 ar ffyrdd mewn ardal gorfodi arbennig yng Nghymru.

Regulation 2 of these Regulations amends regulation 18 of the 1996 Regulations so as to provide that there is no requirement to place and maintain traffic signs to indicate the effect of sections 85 or 86 on roads in a special enforcement area in Wales.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn gan na fydd yn cael effaith sylweddol ar gostau busnes na'r sector gwirfoddol.

No regulatory impact assessment has been prepared for this instrument as it has no significant effect on the cost to business and the voluntary sector.

2010 Rhif 2657 (Cy.222)

2010 No. 2657 (W.222)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Rheoliadau Gorchmynion Traffig
Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn)
(Cymru a Lloegr) (Diwygio)
(Cymru) 2010

The Local Authorities' Traffic
Orders (Procedure) (England and
Wales) (Amendment) (Wales)
Regulations 2010

Gwnaed 25 Hydref 2010
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 3 Tachwedd 2010
Yn dod i rym 1 Rhagfyr 2010

Made 25 October 2010
*Laid before the National
Assembly for Wales* 3 November 2010
Coming into force 1 December 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan adran 124(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraffau 21, 22 a 25 o Atodlen 9 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2) ac ar ôl ymgynghori â chyrff cynrychioliadol yn unol ag adran 134(2)(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the National Assembly for Wales, by section 124(1) of, and paragraphs 21, 22, and 25 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), and now vested in them(2), and after consultation with representative organisations in accordance with section 134(2)(3) of that Act, make the following Regulations.

Enwi, cychwyn a chymhwys

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2010. Deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2010.

Title, commencement and application

1.–(1) The title of these Regulations is the Local Authorities' Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) (Amendment) (Wales) Regulations 2010. They come into force on 1 December 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

-
- (1) 1984 p.27. Diwygiwyd paragraff 21 gan baragraff 4(39)(i) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51) a chan Ran II o Atodlen 8 a pharagraff 80 o Atodlen 9 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Diwygiwyd paragraff 25 gan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.
- (2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
- (3) Diwygiwyd adran 134(2) gan baragraff 77 o Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Gwnaed diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

-
- (1) 1984 c.27. Paragraph 21 was amended by paragraph 4(39)(i) of Schedule 5 to the Local Government Act 1985 (c.51) and by Part II of Schedule 8 and paragraph 80 of Schedule 9 to the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22). Paragraph 25 was amended by Part II of Schedule 8 to the New Roads and Street Works Act 1991.
- (2) The functions of the Secretary of State under the Road Traffic Regulation Act 1984, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).
- (3) Section 134(2) was amended by paragraph 77 of Part II of Schedule 8 to the New Roads and Street Works Act 1991. Other amendments have been made which are not relevant to these Regulations.

**Diwygio Rheoliadau Gorchmynion Traffig
Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a
Lloegr) 1996**

2.–(1) Yn rheoliad 18 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996(1), ar ôl paragraff (4), mewnosoder y canlynol–

"(4A) Nothing in this regulation requires the placing of any traffic sign on or near a road, or the maintenance of such signs, in a special enforcement area in Wales, for the purpose of providing information to road users as to the effect of section 85 or 86 of the Traffic Management Act 2004 in that area."

(2) Yn rheoliad 18, paragraff (5), dileer y geiriau "In paragraph (4)" ac yn eu lle rhodder "In paragraphs (4) and (4A)".

**Amendment of the Local Authorities' Traffic
Orders (Procedure) (England and Wales)
Regulations 1996**

2.–(1) In regulation 18 of the Local Authorities' Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1996(1), after paragraph (4), insert the following–

"(4A) Nothing in this regulation requires the placing of any traffic sign on or near a road, or the maintenance of such signs, in a special enforcement area in Wales, for the purpose of providing information to road users as to the effect of section 85 or 86 of the Traffic Management Act 2004 in that area."

(2) In regulation 18, paragraph (5), delete the words "In paragraph (4)" and replace with "In paragraphs (4) and (4A)".

Ieuan Wyn Jones

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr
Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

25 Hydref 2010

Deputy First Minister and Minister for the Economy
and Transport, one of the Welsh Ministers

25 October 2010

©© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 1996/2489, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 1996/2489, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 2657 (Cy.222)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Gorchmynion Traffig
Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn)
(Cymru a Lloegr) (Diwygio)
(Cymru) 2010

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 2657 (W.222)

ROAD TRAFFIC, WALES

The Local Authorities' Traffic
Orders (Procedure) (England and
Wales) (Amendment) (Wales)
Regulations 2010